


Senedd Cymru
Welsh Parliament




# Etholiad y Senedd yn 2026

## Beth sydd angen i chi ei wybod?

# Etholiad y Senedd 2026



Ar **7 Mai 2026** bydd etholiad yng Nghymru.

Gallwch bleidleisio os ydych chi:



✓ yn 16 oed neu'n hŷn

✓ yn byw yng Nghymru

Mae'r llyfryn yn esbonio mwy am:

- yr etholiad




- sut i bleidleisio

# Pethau pwysig i'w gwybod



Mae'r Senedd yn pasio deddfau sy'n effeithio ar eich bywyd yng Nghymru.



Er enghraifft, deddfau am:


- ysbytai a meddygon teulu



- addysg



- ffyrdd a rheilffyrdd



- ffermio
- diwylliant



- y Gymraeg

# Beth sy’n digwydd ar 7 Mai 2026




Ar **7 Mai 2026** mae angen i chi ddewis plaid neu berson i gynrychioli eich ardal yn y Senedd.

**Dim ond unwaith gallwch bleidleisio.**




Mae gan aelodau etholedig y Senedd y grym i wneud penderfyniadau mawr yng Nghymru.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru i bleidleisio mewn pryd.




Mae angen i chi wneud hyn cyn **20 Ebrill 2026**.

**Mae’n bwysig eich bod yn pleidleisio.**

# Pam fod yr etholiad yn bwysig



Mae'r Senedd yn pasio deddfau ar gyfer Cymru'n unig.

Maent yn gwybod mwy am beth sy'n digwydd yng Nghymru na lleoedd eraill yn y DU.



Bydd **96 o aelodau** yn y Senedd.

Mae'r aelodau yn cynrychioli pob rhan o Gymru.

Maent yn cael eu hethol i gynrychioli:

- ✓ chi
- ✓ eich cymuned



Mae'r Senedd yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos mewn ystafell drafod o'r enw'r **Siambr**.

# Beth mae aelodau'r Senedd yn ei wneud



Mae aelodau'r Senedd yn cael cyfarfodydd llawn i:

- ✓ siarad ar eich rhan



- ✓ gofyn cwestiynau pwysig i **weinidogion Llywodraeth Cymru**
- ✓ siarad gyda'i gilydd a **dadlau** a phleidleisio ar faterion



- ✓ pasio deddfau

Mae aelodau'n rhan o grwpiau o'r enw Pwyllgorau.



Maent yn edrych ar wahanol faterion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yng Nghymru.

## Beth mae aelodau'r Senedd yn ei wneud yn y gymuned



Mae aelodau'n gweithio mewn swyddfa leol pan nad ydynt yn gweithio yn y Senedd.

Mae'r aelodau yn wleidyddion ond maent hefyd yn rhan o'ch cymuned.



Gallwch gwrdd â nhw mewn sesiynau galw heibio yn eu swyddfa leol.

Gallwch hefyd gysylltu â nhw ar-lein neu dros y ffôn.



Efallai y byddant yn codi'ch mater mewn dadl. Nid yw o bwys dros bwy y gwnaethoch chi bleidleisio.

Maent i gyd yn eich cynrychioli'n gyfatal.

# Sut fydd pleidleisio'n gweithio



Etholiad Senedd yw pan fydd pobl yng Nghymru yn penderfynu pwy maen nhw eisiau i gynrychioli eu hardal leol yn Senedd Cymru.



Mae Cymru wedi'i rhannu'n 16 ardal o'r enw **etholaethau**.


Mae gan bob ardal **6 sedd** yn y Senedd. Mae hyn yn golygu bod **6 aelod** yn cael eu hethol ym mhob ardal.

Mae **Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru** wedi creu **16 etholaeth newydd ar gyfer y Senedd.**



Gallwch weld y **16 ardal** ar y map ar y dudalen nesaf.

# 16 ardal pleidleisio Cymru





# Etholaethau ar gyfer etholiad 2026

Mae gan bob etholaeth newydd un enw, i’w ddefnyddio yn y Gymraeg a’r Saesneg.

1. Bangor Conwy Môn
2. Clwyd
3. Fflint Wrecsam
4. Gwynedd Maldwyn
5. Ceredigion Penfro
6. Sir Gaerfyrddin
7. Gŵyr Abertawe
8. Brycheiniog Tawe Nedd



# Etholaethau ar gyfer etholiad 2026

Mae gan bob etholaeth newydd un enw, i’w ddefnyddio yn y Gymraeg a’r Saesneg.

**9. Afan Ogwr Rhondda**

**10. Pontypridd Cynon Merthyr**

**11. Blaenau Gwent Caerffili Rhymni**

**12. Sir Fynwy Torfaen**

**13. Casnewydd Islwyn**

**14. Caerdydd Penarth**

**15. Caerdydd Ffynnon Taf**

**16. Pen-y-bont Morgannwg**

# Etholaethau



Cafodd yr etholaethau eu creu drwy edrych ar y canlynol:

- ✓ nifer yr etholaethau yn y DU
- ✓ ffiniau llywodraethau lleol



- ✓ afonydd a mynyddoedd
- ✓ cysylltiadau lleol – er enghraifft lle mae pobl yn defnyddio'r Gymraeg.



Fe wnaeth y Comisiwn hefyd ofyn am farn pobl am y cynllun newydd.

Cafodd yr ardaloedd newydd eu creu ar ôl gwrando ar bobl leol.

# System bleidleisio newydd



Mae pleidiau gwleidyddol yn llunio rhestr o hyd at **8 ymgeisydd** ar gyfer pob ardal.





Gall pobl nad ydynt mewn plaid wleidyddol sefyll i gael eu hethol fel aelod **annibynnol**.

Mae pob aelod yn cael ei ethol yn seiliedig ar gyfran y pleidleisiau y mae pob plaid neu berson annibynnol yn eu cael.



Os yw ymgeisydd annibynnol yn cael digon o bleidleisiau, byddant hefyd yn ennill sedd yn y Senedd.

# Beth sy'n digwydd yn yr etholiad?




Os yw plaid yn derbyn digon o bleidleisiau, byddant yn ennill un neu'n fwy o seddi yn y Senedd.



Os yw plaid yn ennill **3 sedd** mewn etholaeth, bydd y **3 pherson ar frig eu rhestr** yn cael eu hethol i'r seddi hynny, yn y drefn honno.




Os yw ymgeisydd annibynnol yn derbyn digon o bleidleisiau, byddant hefyd yn ennill sedd yn y Senedd.

# Sut i bleidleisio



Mae eich papur pleidleisio yn dangos y rhestr lawn o ymgeiswyr yn eich etholaeth.

Nid oes angen i chi ddod â'ch cerdyn adnabod gyda chi i bleidleisio.




Bydd gennych chi un bleidlais i ddewis y blaid neu'r person rydych chi eisiau i gynrychioli eich ardal yn y Senedd.




Os yw plaid yn derbyn digon o bleidleisiau, byddant yn ennill un neu'n fwy o seddi yn y Senedd.

**Dysgwch fwy am y Senedd a'r etholiad:**
**https://senedd.cymru/etholiad-y-senedd-2026/**